OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 523 (Cy. 64)

# GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU
# PENSIYNAU, CYMRU

## Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Cyfraniadau) (Diwygio) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *4 Mawrth 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *7 Mawrth 2014* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 34, 60 a 62 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(**1**).

Yn unol ag adran 34(5) o'r Ddeddf honno, ymgynghorodd Gweinidogion Cymru â'r personau hynny a oedd yn briodol, yn eu barn hwy, cyn gwneud y Gorchymyn.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Cyfraniadau) (Diwygio) 2014.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2014.

### Diwygio Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007

**2.** Mae Atodlen 1 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007(**2**) (lle y mae Cynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru) wedi ei nodi), wedi cael ei diwygio yn unol ag erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn.

**3.** Yn lle'r Tabl ym mharagraff 5 o Atodiad A1 rhodder y Tabl canlynol—

(**1**) 2004 p.21. Diwygiwyd adran 34 gan adran 27 o Ddeddf Pensiwn y Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 (p.25), a pharagraff 27 o Atodlen 8 iddi, ond pan wnaed y Gorchymyn hwn nid oedd y diwygiad eto mewn grym. Diwygiwyd adrannau 60 a 62 gan adrannau 9 a 10 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p.20). Cafodd y pwerau o dan adrannau 34 a 60 eu breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, yn rhinwedd adran 62 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. Trosglwyddwyd y pwerau i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**2**) O.S. 2007/1072 (Cy.110) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2009/1225 (Cy.108), 2010/234, 2012/972 (Cy.127), 2013/735 (Cy.87) a 2013/1577 (Cy.145).

| *"Tâl pensiynadwy* | *Y gyfradd gyfrannu o 1 Ebrill 2014 ymlaen* |
|---|---|
| Hyd at a chan gynnwys £15,000 | 8.5% o'r tâl pensiynadwy |
| Mwy na £15,000 a hyd at a chan gynnwys £21,000 | 9.4% o'r tâl pensiynadwy |
| Mwy na £21,000 a hyd at a chan gynnwys £30,000 | 10.4% o'r tâl pensiynadwy |
| Mwy na £30,000 a hyd at a chan gynnwys £40,000 | 10.9% o'r tâl pensiynadwy |
| Mwy na £40,000 a hyd at a chan gynnwys £50,000 | 11.2% o'r tâl pensiynadwy |
| Mwy na £50,000 a hyd at a chan gynnwys £60,000 | 11.3% o'r tâl pensiynadwy |
| Mwy na £60,000 a hyd at a chan gynnwys £100,000 | 11.7% o'r tâl pensiynadwy |
| Mwy na £100,000 a hyd at a chan gynnwys £120,000 | 12.1% o'r tâl pensiynadwy |
| Mwy na £120,000 | 12.5% o'r tâl pensiynadwy." |

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, un o Weinidogion Cymru

4 Mawrth 2014

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Cynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru) ("y Cynllun") sydd wedi ei nodi yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (O.S. 2007/1072 (Cy.110)), i fod yn effeithiol o 1 Ebrill 2014.

Mae erthygl 3 yn diwygio'r Cynllun er mwyn darparu ar gyfer cyfradd wahanol o gyfraniadau pensiwn sy'n daladwy gan aelodau'r Cynllun sy'n cynyddu yn ôl swm y tâl pensiynadwy y mae'r aelod yn ei dderbyn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi gan y Gangen Tân a'r Lluoedd Arfog, Llywodraeth Cymru, Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ neu drwy ffonio 0300 062 8221.